LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Cofnodion Sesiwn Agored

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

27 Ionawr 2023

Yn bresennol:

Aelodau:

Ashok Ahir (Llywydd)	Andrew Evans (Is Lywydd)
Lee Yale-Helms (Trysorydd)	Lydia Rumsey
Janet Wademan	David Hay
Elin Royles	Mike Cavanagh
Quentin Howard	Gwenllian Lansdown Davies
Susan Davies	Gronw Percy (darpar Drysorydd)

Tîm Gweithredol:

Pedr ap Llwyd	Prif Weithredwr a Llyfrgellydd
David Michael	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
Owain Roberts	Cyfarwyddwr Casgliadau a Gwasanaethau Digidol
Rhian Gibson	Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Ymgysylltu a Phartneriaethau

Cofnodydd:

Carol Edwards	Rheolwr Llywodraethiant a Chlerc Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Sylwedyddion (sesiwn agored yn unig):

Manon Maragakis	Llywodraeth Cymru
Doug Jones	Cyngor Partneriaeth
Nia Dafydd	Cyngor Partneriaeth

1.1 Croeso'r Cadeirydd, Sylwadau Agoriadol ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Llywydd bawb i'r cyfarfod, gan estyn croeso arbennig i Gronw Percy, darpar Drysorydd.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Hannah Lindsay, Anwen Jones, Elaine Treharne a Carl Williams.

1.2 Datgan Buddiannau sy'n berthnasol i'r agenda

Datganwyd buddiant gan aelodau'r Tîm Gweithredol, Clerc y Bwrdd a'r aelodau Cyngor Partneriaeth yn y drafodaeth ar ddyfarniad cyflog, fel staff cyflogedig y Llyfrgell.

Datganodd Lee Yale-Helms fuddiant yn yr adroddiad a gynhyrchwyd gan CIPFA fel Ymddiriedolwr un o elusennau CIPFA.

1.3 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2022 a 13 Rhagfyr 2022 a thrafod materion yn codi

Derbyniwyd cofnodion y ddau gyfarfod fel cofnod cywir o'r materion a drafodwyd.

Adran 2 Adroddiad y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd

Oriel Gelf Gyfoes – adroddwyd bod y datblygiad yma, sy'n rhan o raglen lywodraethu Llywodraeth Cymru mewn dwy ran - rhyngwyneb digidol ac oriel angor. Mae'r Llyfrgell wedi ei dewis i fod yn un o'r 10 safle digidol a bydd rhaglen yn cael ei pharatoi i ddethol eitemau i'w cynnwys yn yr oriel ar-lein. Er ei bod wedi cyflwyno cais, mae'r Llyfrgell wedi cael gwybod ar lafar nad yw wedi ei dewis fel safle angor, ond mae'n aros am adborth pellach ynglŷn â'r penderfyniad. Un safle angor fydd yn bodoli a hynny yn safle ffisegol.

Cynghrair Strategol Prifysgol Cymru'r Drindod Dewi sant a'r Llyfrgell - adroddodd Rhian Gibson fod cyfarfod cyntaf llwyddiannus wedi ei gynnal gyda Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ynglŷn â phartneriaethu ar brosiectau digidol. Mi fydd cyfarfod arall yn Abertawe ar 30 Ionawr i drafod arddangosfeydd rhithiol a rhai ymdrwytho.

Gweithgareddau dysgu - adroddodd Rhian Gibson y bydd cyflwyniad gan y gwasanaeth addysg yn cael ei roi i'r Pwyllgor Perfformiad ac Ansawdd ar 14 Mawrth. Mae strategaeth 3 mlynedd yn cael ei pharatoi sy'n alinio gyda phrif strategaeth y Llyfrgell - bydd hon yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Ansawdd yn y lle cyntaf, ac yna i'r Bwrdd.

Ymweliad Ysgrifennydd Gwladol Cymru - mae swyddfa'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cysylltu i ddatgan fod yr Ysgrifennydd â diddordeb ymweld â'r Llyfrgell. Nid oes dyddiad wedi ei gytuno eto.

Archif Ddarlledu Cymru - atgoffwyd yr Ymddiriedolwyr i ymateb cyn gynted â phosib i'r gwahoddiad i lansiad Archif Ddarlledu Cymru ar 16 Mawrth.

Strategaeth Diwylliant Llywodraeth Cymru - adroddwyd bod Owain Roberts yn cynrychioli'r Llyfrgell fel aelod o'r Grŵp Llywio.

Gwirfoddoli - mae'r cynllun gwirfoddoli yn parhau i ehangu, a bydd cyfle i recriwtio mwy o wirfoddolwyr dros y misoedd nesaf i weithio ar brosiect digidol pan fydd y gist a'r ddeiseb

heddwch yn ein cyrraedd o'r Smithsonian. Mae'r Llyfrgell hefyd yn gweithio gyda gwirfoddolwyr a grwpiau gwirfoddol yn y Corneli Clip yng Nghaerfyrddin, Caerdydd a Merthyr.

Adran 3 Materion Strategol

3.1 Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol

Cymeradwywyd fersiwn 2023 o'r Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol; bydd hwn yn cael ei gynnwys yn Llawlyfr yr Ymddiriedolwyr ar-lein.

3.2 Polisi Dad-dderbyn

Yn dilyn cais yn y cyfarfod blaenorol, cyflwynwyd y polisi er gwybodaeth i'r Ymddiriedolwyr.

3.3 Cais Lefelu i Fyny

Y cam nesaf yn y broses yw aros i Jonathan Adams, Capita, ymweld â'r Llyfrgell i brisio'r prosiect.

Adran 4 Materion Corfforaethol

4.1 Adroddiadau Ariannol

4.1.1 Cyllideb Ddrafft 2023/24

Cyfarfu'r Swyddogion gyda'r Tîm Gweithredol i drafod y gyllideb a barn y Swyddogion oedd bod angen mwy o waith ar gostau mewn 4 maes penodol cyn medrai'r Bwrdd ei chymeradwyo. Mae hyn ar waith, a bydd y gyllideb ddrafft yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau ar 7 Chwefror, ac yna i gyfarfod arbennig o'r Bwrdd ar 23 Chwefror.

Nododd y Trysorydd ei bod yn anffodus nad oedd modd cymeradwyo'r gyllideb ddrafft heddiw, ond bod angen rhoi sylw i hyn fel mater o frys i sicrhau bod cyllideb gyflawn a chadarn sy'n alinio gyda'r strategaeth yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor ar 7 Chwefror.

Awgrymodd y Trysorydd y dylid cynnal adolygiad o reolaeth ariannol fel mater o frys ar bob lefel ar draws y Llyfrgell, o lefel y Cyfarwyddwyr i lawr.

O ran y cronfeydd preifat, gofynnwyd i'r Tîm Gweithredol weithio ar 2 senario posib, sef effaith tynnu naill ai £1M neu £1.5M o'r cronfeydd preifat i fynd i'r afael â'r diffyg rhagamcanol o £1.7 M yn y gyllideb. Cytunwyd y byddai'r Tîm Gweithredol yn gweithio ar hyn a chyflwyno'r wybodaeth i'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau.

YMUNODD GWENLLIAN LANSDOWN DAVIES Â'R CYFARFOD AM 12.00

4.1.2 Cyfrifon Rheoli Tachwedd 2022

Cyflwynwyd cyfrifon rheoli mis Tachwedd 2022 gan David Michael, a nododd;

- Derbyniwyd £900k o GIA ychwanegol ym mis Tachwedd 2022 oedd yn amrywiant positif
- Gweithredwyd y dyfarniad cyflog i'r holl staff ym mis Ionawr 2022
- Gan fod y Llyfrgell yn prynu ymlaen am gyfnod o 18 mis, mae costau ynni yn llai nag a ragwelwyd yn flaenorol

O ganlyniad, mae'r diffyg terfynol rhagamcanedig ar gyfer 2022/23 wedi gostwng o c.£1,334k i c.£323k.

4.2 Cydymffurfiaeth a Risg

4.2.1 Cofrestr Risg Corfforaethol

Cyflwynwyd y gofrestr risg corfforaethol i sylw'r aelodau; bydd trafodaeth fanwl yn digwydd yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, ond nodwyd y canlynol;

Insufficient and inappropriate storage space for physical collections - mae'r risg wedi gostwng o *Extreme* i *High* oherwydd y gwaith optimeiddiaeth ar ofod sydd wedi ei wneud a hefyd y gwaith sydd yn digwydd i adnabod safleoedd potensial ar gyfer gofod storio allanol.

Data security and integrity - yn wyneb y bygythiad parhaus o ymosodiadau seiber, dylid codi'r sgôr yma. Gofynnwyd hefyd a fyddai modd i'r Bwrdd dderbyn adroddiad yn fuan ar ddiogeledd seiber

Risk that the Library is not a going concern – dylid ystyried newid hwn o *Extreme* i *High* ar ôl mis Mawrth yn dilyn gweithredu'r gyllideb newydd.

Erbyn hyn, mae pob Ymddiriedolwr â mynediad i RiskMate i fedru gweld y gofrestr gorfforaethol a'r rhai adrannol. Cytunwyd fod hyn yn gam ymlaen, ond bod dal gormod o risgiau ar y gofrestr gorfforaethol, a does dim gweithrediadau lliniaru'n dangos ar yr adroddiad i fedru tracio'r cynnydd i liniaru'r risg. Cytunodd David Michael i edrych ar hyn ac adrodd yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd.

Adran 5: Adroddiadau o Bwyllgorau

5.1 Cofnodion Drafft Pwyllgor Perfformiad ac Ansawdd

Cyflwynwyd y cofnodion gan y Cadeirydd, Ashok Ahir, a thynnwyd sylw at y canlynol;

Dangosyddion Perfformiad Ch1 a Ch2 – mae niferoedd ymwelwyr digidol wedi cwympo ond mae gwaith ar y gweill i ganfod beth yw'r rheswm tu ôl i'r cwymp.

Polisi Gweithio'n Hybrid - mae'r polisi'n caniatáu i staff weithio gartref am 2/3 diwrnod ar y mwyaf bob wythnos. Mae gweithdrefn gweithio o gartref i reoli a monitro staff sy'n gweithio gartre'n cael ei datblygu. Mae'r polisi'n parhau i gael ei ystyried gan yr undebau a staff.

Adran 6: Unrhyw Fater Arall

Dogfen Fframwaith Llywodraeth Cymru - mae'r Llyfrgell yn parhau i aros am y fersiwn derfynol o'r ddogfen yma, ac mi fydd Manon Maragakis yn dilyn hyn i fyny gyda'r adran berthnasol o fewn y Llywodraeth. Mae fersiwn 2022 o'r fframwaith yn nodi bod rhaid i'r Llyfrgell gael "budget cover" mewn lle ar gyfer defnyddio ei harian preifat, ond nid yw fersiwn 2011 yn nodi hyn, felly cytunwyd y byddai'r Llyfrgell yn dilyn yr hen fframwaith wrth ddefnyddio ei harian preifat hyd nes bydd y fersiwn newydd terfynol wedi ei chytuno a'i chylchredeg.

Crynodeb o Sesiwn Gaeedig 27.01.23 - Ymddiriedolwyr, Tîm Gweithredol, Rheolwr Adnoddau Dynol a Chlerc y Bwrdd yn bresennol.

Ymgynghoriad ar y Gyllideb
Cyflwynodd David Corner, CIPFA, ei adroddiad sy'n gosod allan sefyllfa gyllidol gyfredol y Llyfrgell, yn edrych ar faint potensial y diffyg strwythurol ac yn adnabod opsiynau posibl i'r Ymddiriedolwyr eu hystyried i gynhyrchu arbedion costau.

Diolchwyd i David Corner am ei adroddiad cynhwysfawr, fydd nawr yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau ar 7 Chwefror i'w ystyried yn fanylach.

Cynllun Pensiwn
Adroddodd y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd fod Llywodraeth Cymru wedi datgan na fyddai gan y Dirprwy Weinidog wrthwynebiad i'r Llyfrgell fwrw ymlaen gydag ymgynghoriad ynglŷn â chau'r cynllun pensiwn presennol. Cafwyd pleidlais ymhlith yr aelodau a chytunwyd i fwrw ymlaen gyda'r ymgynghoriad.

PWYNTIAU GWEITHREDU'N DEILLIO O'R CYFARFOD

Eitem agenda	Gweithred	Cyfrifoldeb	Dyddiad gweithredu/disgwylir
Sesiwn Gaeedig	Cynnwys adroddiad CIPFA ar agenda'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau 07.02.23 Gwahodd John Cockerton i gyfarfod Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau 07.02.23	Clerc Clerc	✓ ✓
Adroddiad y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd	Oriel Gelf Gyfoes – derbyn adborth mewn perthynas â safle angor yr Oriel Gelf Gyfoes	Manon Maragakis	✓
Cyllideb Ddrafft 2023/24	Trefnu cynnal adolygiad o reolaeth ariannol ar bob lefel ar draws y Llyfrgell, o lefel Cyfarwyddwr i lawr Gweithio ar 2 senario defnydd o arian preifat 1.tynnu £1M i gwrdd â'r diffyg o £1.7M 2.tynnu £1.5M i gwrdd â'r diffyg o £1.7M	Prif Weithredwr Tîm Gweithredol	✓ ✓
Cofrestr Risg Corfforaethol	*Data security and integrity* - angen codi'r sgôr a pharatoi adroddiad i'r Bwrdd ar ddiogeled seiber *Risk that Library is not a going concern* - newid y sgôr i HIGH ar ôl mis Mawrth Dim gweithrediadau lliniaru yn ymddangos yn yr adroddiad Angen tynnu nifer y risgiau i lawr	David Michael	Diwygiwiyd y gofrestr i leihau'r nifer o risigau ac ailedrych ar adolygu'r rhai sydd wedi eu cynnwys ar y gofrestr gorfforaethol. Archwiliad mewnol ar reoli risg i ddigwydd fydd yn cynnwys y gofrestr risg
Dogfen Fframwaith	Derbyn adborth ar statws fersiwn 2022 o'r Fframwaith	Manon Maragakis	✓